PENODI CYNGHORYDD CENEDLAETHOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MATHAU ERAILL O DRAIS AR SAIL RHYWEDD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tâl: £60,050, a phensiwn a threuliau rhesymol – Amser llawn (37 awr yr wythnos) ond yn agored i bobl sydd am weithio'n rhan-amser a rhannu'r swydd.

Cyfnod y penodiad: Tair blynedd; gydag opsiwn i'w estyn am dair blynedd arall, hyd at gyfnod o chwe blynedd ar y mwyaf.

Lleoliad: Hyblyg

Yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fod yn arbenigwr yn y maes hwn, gan roi safbwynt gwybodus ac annibynnol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu a gweithredu polisïau a deddfwriaeth yn y meysydd hyn.

Y Cefndir

Cafodd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ei phasio gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Mawrth 2015 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Cenedlaethol a all roi cyngor a chymorth am drefniadau ar gyfer atal trais a chamdriniaeth ac amddiffyn a helpu pobl y mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Swyddogaethau'r Cynghorydd, fel y'u nodir yn y Ddeddf, yw:

- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- darparu cynorthwy arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu ymchwilio i weld a yw cam-drin o unrhyw fath yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- darparu cyngor a chynhorthwy arall, gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson ar faterion sy'n ymwneud ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- cynhyrchu adroddiadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd y Cynghorydd yn cyfrannu mewn modd annibynnol a chytbwys ac yn cynnig arbenigedd a chyngor pan fo angen, fel rhan o waith amrywiol a pharhaus sy'n cyfrannu at ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gynnal trafodaethau'n aml gyda'r tîm polisi ehangach, yn ogystal â Gweinidogion Cymru.

Caiff y swydd ei rheoli o fewn Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnig cyfle unigryw i'r ymgeisydd llwyddiannus ddefnyddio'i wybodaeth a'i brofiad drwy roi cyngor ymarferol i lywio'r broses o ddatblygu strategaethau a pholisïau a fydd yn sail i'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Ddeddf yn atal y Cynghorydd rhag penodi staff neu gaffael neu rentu eiddo; yn hytrach bydd deiliad y swydd yn cael cefnogaeth gan staff Llywodraeth Cymru ac yn cael ei leoli mewn swyddfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru dîm polisi sydd eisoes yn ymdrin â'r materion hyn.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith gan gynnwys penodi i gyrff cyhoeddus. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp, ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, tueddiadau rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd a mamolaeth. Cedwir at yr egwyddor o gystadleuaeth deg ac agored a phenodir ar sail teilyngdod.

Caiff y Cynghorydd Cenedlaethol ei benodi yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus a gyhoeddir gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Rhaid i'r Cynghorydd Cenedlaethol felly lynu wrth yr egwyddorion bywyd cyhoeddus sy'n gymwys i bob gwas cyhoeddus. Isod, ceir dolen at ffilm fer a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynglŷn â chael swydd gyhoeddus.

I gael rhagor o fanylion ac i wneud cais ewch i http://gov.wales/about/recruitment/public-appointments/?skip=1&lang=cy neu os oes gennych gwestiynau cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **14 Medi 2017**. Ni chaiff ffurflenni cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried. Disgwylir y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar **6 Hydref 2017**.

Mae fersiynau print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon ar gael ar gais drwy ffonio 029 2082 5454.

Regulated by
The Commissioner for
Public Appointments

Llywodraeth Cymru
Welsh Government